


# Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans


## Naratif a Throsolwg

## Mawrth 2023



# CYNNWYS

Naratif a throsolwg	2
Model Ymateb Clinigol	3
Llwybr Gofal Ambiwllans Pum Cam	4
Cam 1 – Helpwch fi i ddewis	4
Cam 2 – Atebwch fy ngalwad	5
Galwadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol	5
Galwadau 999	5
Gwranddo a thrin	6
Gweld a thrin	6
Cam 3 – Dewch i fy ngweld	7
Categori Ymateb COCH	7
Categori Ymateb AMBR	8
Categori Ymateb GWYRDD	9
Nifer yr adnoddau a gyrhaeddodd digwyddiadau	9
Ymateb gan Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned	9
Cam 4 – Rhowch driniaeth i mi	10
Cam 5 - Ewch â fi i'r ysbyty	11





# NARATIF A THROSOLWYG

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) yn darparu gwasanaethau ambiwlans brys i boblogaeth Cymru ac unrhyw un sy'n ymweld â Chymru.

Mae'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn comisiynu'r gwasanaethau hyn drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (PGAB). Er mwyn monitro'r gwasanaethau hyn, datblygodd y PGAB gyfres o Ddangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans (DGA) gyda WAST. Mae'r dangosyddion yn cael eu hadrodd bob mis ar draws y Llwybr Gofal Ambiwllans Pum Cam (y model 5 cam):

Mae'r model 5 cam wedi ei gynllunio i sicrhau bod adnoddau'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu hanfon at alwadau lle mae angen dybryd i achub bywyd neu ddarparu triniaeth.

Ar gyfer achosion llai difrifol, darperir triniaethau eraill, fel atgyfeiriadau i rannau eraill o'r GIG neu am gyngor dros y ffôn.

Bwriad y model 5 cam yw sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn darparu'r ymateb cywir i glaf yn dibynnu ar ei angen clinigol.

**Mae'r cyhoeddiad hwn ynglŷn â'r DGA yn canolbwyntio ar fis Mawrth 2023.** Mae DGA blaenorol a dyddiad y cyhoeddiad nesaf ar gael ar wefan PGAB.

Mae WAST hefyd yn darparu gwefan i wasanaeth GIG 111 Cymru ledled Cymru sy'n rhoi mynediad i gleifion at wybodaeth iechyd gan gynnwys gwirwyr symptomau, lleoliadau gwasanaeth a lleoliadau diffibriliwr.

Mae GIG 111 Cymru hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor dros y ffôn 24/7 y gall cleifion ei ffonio os nad ydynt yn siŵr beth yw eu hanghenion gofal iechyd.

Mae WAST yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu cydlynu trwy'r Canolfannau Cyswllt Clinigol. Mae'r rhain yn derbyn galwadau am gymorth gan y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd angen cael gafael ar gymorth brys i glaf.



Ffigur 1 – Llwybr Gofal Ambiwllans Pum Cam



# MODEL YMATEB CLINIGOL

Nod y model ymateb clinigol yw sicrhau bod cleifion yn cael y gofal clinigol cywir ar yr adeg gywir ac mae'n caniatáu i WAST nodi'n gyflym anghenion clinigol galwr 999.

Mae hyn yn caniatáu i'r ymateb cywir gael ei ddarparu, gall hyn fod yn ambiwlans neu'n barafeddyg mewn car ymateb cyflym ar gyfer galwadau COCH neu AMBR difrifol. Ar gyfer llawer o ddigwyddiadau blaenoriaeth is AMBR a GWYRDD, efallai y bydd nyrs neu barafeddyg yn rhoi cyngor i'r galwr dros y ffôn.

Categori	Disgrifiad
COCH	Galwadau lle mae bywyd yn y fantol, fel ataliad y galon neu dagu. Bydd y galwadau hyn yn destun dangosyddion clinigol fel cyfraddau dychweliad digymell cylchrediad (DCD) yn ogystal â safon seiliedig ar amser. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i 65% o leiaf o'r galwadau hyn arwain at bresenoldeb ambiwlans o fewn 8 munud.
AMBR	Galwadau difrifol ond lle nad yw bywyd yn y fantol. Bydd y galwadau hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o achosion meddygol a thrawma, fel poen yn y frest a thoresgyrn. Bydd galwadau ambr yn cael ymateb brys. Crëwyd proffil ymateb i sicrhau bod yr adnodd clinigol mwyaf addas yn cael ei anfon i bob galwad categori ambr. Bydd hyn yn cynnwys triniaeth drwy wasanaethau "gwrando a thrin" dros y ffôn. Defnyddir profiad cleifion a data dangosyddion clinigol i werthuso effeithiolrwydd ymateb ambiwlansys i alwadau ambr.
GWYRDD	Nid yw galwadau 999 sy'n cael eu categorio'n rhai gwyrdd yn ddiffrifol nac yn alwadau lle mae bywyd yn y fantol. Mae cyflyrau fel clust dost neu fân anafiadau'n cael eu codio'n alwadau gwyrdd. Y driniaeth ddelfrydol ar gyfer galwadau gwyrdd yw gwasanaeth brysbennu eilaidd dros y ffôn.
GWYRDD (GGIP)	Yn aml, bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel meddygon, bydwagedd neu ysbytai cymunedol, angen trosglwyddo claf ar frys o ofal aciwtedd isel i gyfleuster aciwtedd uwch. Mae'r trosglwyddiadau hyn yn cael eu nodi fel galwadau gwyrdd ac yn cael eu cyflawni o fewn amserlen y cytunwyd arni gyda'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y trosglwyddiad.

Tabl 1 – Model Ymateb Clinigol



# LLWYBR GOFAL AMBIWLANS PUM CAM

## CAM 1 – HELPWCH FI I DDEWIS

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, sef mis Mawrth 2023, ymwelwyd â gwefan GIG 111 Cymru 388,382 o weithiau (DAA4i).

*Sylwch: Mae mesur nifer yr ymweliadau â gwefan GIG 111 Cymru yn helpu i nodi cyfnodau prysur o ran galwadau ac i ymchwilio i gysylltiadau â chyfradd y galwadau i GIG 111 Cymru / Galw Iechyd Cymru a'r Canolfannau Cyswllt Clinigol Brys.*

Problemau deintyddol yw'r prif reswm i'r cyhoedd alw GIG 111 Cymru yn gyfanswm o 2,912 o alwadau (DAA4ii).

*Sylwch: Mae nodi'r 10 prif reswm dros ffonio Galw Iechyd Cymru yn helpu i nodi'r cyngor y mae angen i Galw Iechyd Cymru allu ei ddarparu. Mae hyn hefyd yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ddatblygu gwasanaethau lle mae angen heb ei ddiwallu.*

Diffinnir galwyr cyson fel pobl sy'n deialu gwasanaeth brys fwy na phum gwaith y mis neu 12 gwaith mewn tri mis.

Arweiniodd 201 o alwyr rheolaidd at 2,334 o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd hyn yn cyfateb i 6.7% o gyfanswm digwyddiadau y Gwasanaeth Ambiwllans (34,915) (DAA5).

*Sylwch: Mae nodi galwyr rheolaidd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwllans i reoli anghenion y garfan hon o alwyr. Mae llawer o'r bobl hyn yn oedolion agored i niwed ag angen sydd heb ei ddiwallu. Nid yw anfon ambiwlansys at y cleifion hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae anghenion cleifion sy'n galw'n rheolaidd yn cael eu rheoli trwy dimau amlddisgyblaethol, gan gynnwys timau gofal sylfaenol, timau gofal eilaidd a rheolwyr clinigol yn y Byrddau Iechyd Lleol ac yn y Gwasanaeth Ambiwllans. Gallai hyn olygu bod y Gwasanaeth Ambiwllans yn cyfeirio claf at wasanaeth meddyg teulu neu at dîm arbenigol, fel gwasanaeth iechyd meddwl.*



## CAM 2 – ATEBWCH FY NGALWAD

### GALWADAU GAN WEITHWYR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL

Cafwyd **3,884** o alwadau am dderbyniad brys (o fewn 1-4 awr) gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd yn ystod y cyfnod adrodd (DAA6).

**Sylwch:** Ystyr gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yw meddyg (meddyg teulu fel arfer), parafeddyg, nyrs, bydwaig, deintydd neu weithiwr cymdeithasol cymeradwy. Mae mesur nifer y galwadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn helpu WAST i gynllunio a datblygu strategaethau i reoli anghenion y cleifion hyn.

### GALWADAU 999

Atebwyd **44,320** o alwadau i 999 (DAA7i) ac atebwyd **34,915** o alwadau trwy'r System Anfon Blaenoriaeth Feddygol [MPDS] (DAA8). Gweler y deg math mwyaf cyffredin o alwad isod:

Protocol	Disgrifiad	Nifer y galwadau
06	Problemau Anadlu	4,097
17	Cwmpo	4,271
10	Poenau yn y Frest	3,711
26	Person Sâl (Diagnosis Penodol)	2,810
31	Anymwybodol / Llewygu (Ger)	1,985
UGA1	Uwchraddio i AMBR1	1,799
U	Anhysbys - Defnyddiwr wedi gadael y galwad	1,326
21	Gwaedlif / Mursennod	1,318
28	Strôc (CVA / TIA)	1,365
12	Convulsions / Fitting	1,334

Tabl 2 – Y deg math mwyaf cyffredin o alwad trwy'r system MPDS

**Sylwch:** System y mae WAST yn ei defnyddio i asesu difrifoldeb galwadau 999 yw MPDS.



## GWRANDO A THRIN

Daeth **4,838 (13.9%)** o alwadau i ben yn dilyn asesiad 'gwrando a thrin' WAST dros y ffôn (DAA9i).

**Sylwch:** 'Gwrando a thrin' yw'r cyngor clinigol dros y ffôn y mae WAST yn ei roi pan na fydd cyflyrau difrifol na chyflyrau sy'n bygwth bywyd gan y sawl sy'n galw. Gall hyn olygu na fydd ambiwlans o reidrwydd yn cael ei anfon ar unwaith. Yn hytrach, gellir rhoi cyngor gofal iechyd mwy priodol i gleifion yn seiliedig ar yr hyn maent yn ei ddweud wrth y clinigydd dros y ffôn. Efallai y cânt gyngor ynghylch sut i ofalu amdanynt eu hunain neu ble y gallent fynd i gael cymorth priodol, er enghraifft meddyg teulu neu fferyllfa. Gellir hefyd ddweud wrthynt am fynd i'r ysbyty os bydd hyn yn ddiogel, neu gellir darparu math arall o gludiant iddynt yn hytrach nag ambiwlans.

**Sylwch:** Mae cyfraddau cyswllt am yr eildro yn mesur nifer y cleifion sy'n deialu 999 eto ar ôl cael gwasanaethau cyngor dros y ffôn ('gwrando a thrin') neu ar ôl cael eu trin yn y fan a'r lle ('gweld a thrin'). Gall hyn fod ar gyfer problem annisgwyl neu broblem newydd o fewn y 24 awr ganlynol. Er mwyn sicrhau bod WAST yn darparu gofal diogel ac effeithiol, a hynny ar y tro cyntaf, mae'r dangosydd hwn yn mesur faint o gleifion sy'n ffonio yn ôl ymhen 24 awr ar ôl yr alwad gyntaf.

O blith y **4,838** o alwadau a ddaeth i ben yn dilyn gwasanaeth 'gwrando a thrin' (DAA9i), cafwyd **376** o alwadau dilynol o fewn 24 awr (DAA10i).

## GWELD A THRIN


O blith y **2,004** a gafodd eu trin yn y fan a'r lle ('gweld a thrin') (DAA10ii), cafwyd **13** (DAA10ii) o alwadau dilynol o fewn 24 awr.



## CAM 3 – DEWCH I FY NGWELD I CATEGORI YMATEB COCH

Cafwyd **3,949** o alwadau categori COCH yn ystod y cyfnod adrodd (DAA11).

Targed cenedlaethol Cymru ar gyfer ymateb i alwadau COCH o fewn 8 munud yw 65%. Ar lefel Cymru gyfan, ni chyrhaeddwyd y targed hwn ar gyfer y mis hwn.



Tabl 3 – Perfformiad misol o ran y targed ymateb cenedlaethol i alwadau COCH, ar ffurf canran

Y targed ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd yw 60% a dim ond Bwrdd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chyflawnwyd hyn ar gyfer y mis hwn.

Bwrdd Iechyd Lleol	Mawrth 2023
BIP Aneurin Bevan	52.0%
BIP Betsi Cadwaladr	44.3%
BIP Caerdydd a'r Fro	51.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	42.5%
BIP Hywel Dda	48.9%
BIA Powys	42.9%
BIP Bae Abertawe	47.5%

Tabl 4 – Perfformiad y Byrddau Iechyd Lleol bob mis o ran y targed ymateb, ar ffurf canran



## CATEGORI YMATEB COCH

Mae galwadau COCH yn alwadau lle mae bywyd yn y fantol, felly mae'n bwysig mesur nid yn unig sut mae'r gwasanaeth ambiwlans yn perfformio yn erbyn targed cenedlaethol Cymru, ond hefyd ddsbarthiad y perfformiad.

Categori	Mawrth 2023
COCH amser fel canolrif	00:08:24
COCH 65ain ganradd	00:11:17
COCH 95ain ganradd	00:24:48

Tabl 5 – Amser ymateb i alwadau COCH bob mis (oriau:munudau:eiliadau)

## CATEGORI YMATEB AMBR

Cafwyd 14,749 o alwadau categori AMBR yn ystod y cyfnod adrodd. Mae galwadau AMBR yn ddifrifol, ond nid ydynt yn alwadau lle mae bywyd yn y fantol. Cânt eu mesur yn ôl safon y gofal a ddarperir gan WAST (DAA12).

Categori	Mawrth 2023
AMBR amser fel canolrif	01:40:56
AMBR 65ain ganradd	02:40:24
AMBR 95ain ganradd	09:23:14

Tabl 6 – Amser ymateb i alwadau AMBR bob mis (oriau:munudau:eiliadau)



## CATEGORI YMATEB GWYRDD

Cafwyd **1,336** o alwadau categori GWYRDD yn ystod y cyfnod adrodd. Mae galwadau GWYRDD yn alwadau 999 nad ystyrir yn rhai difrifol nac yn rhai lle mae bywyd yn y fantol (DAA13).

Categori	Mawrth 2023
GWYRDD amser fel canolrif	01:15:50
GWYRDD 65ain ganradd	02:04:30
GWYRDD 95ain ganradd	09:59:01

Tabl 7 – Amser ymateb i alwadau GWYRDD bob mis (oriau:munudau:eiliadau)

## NIFER YR ADNODDAU A GYRHAEDDODD DIGWYDDIADAU

**Sylwch:** Mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ambiwlans sydd ar gael a mesur nifer yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo i ddigwyddiad. Bydd yn briodol neilltuo mwy nag un ambiwlans ar adegau, er enghraifft wrth ymateb i alwad ddifrifol iawn lle mae bywyd yn y fantol (galwad categori COCH) neu ddigwyddiadau â sawl anafiad, fel damwain traffig ar y ffordd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, aeth un adnodd i **70.1%** o ddigwyddiadau, dau adnodd i **22.5%** o ddigwyddiadau, tri adnodd i **5.3%** o ddigwyddiadau a phedwar neu fwy o adnoddau i **1.6%** o ddigwyddiadau (DAA14).

## YMATEB GAN YMATEBWYR CYNTAF YN Y GYMUNED

Gwirfoddolwyr yw ymatebwyr cyntaf yn y gymuned sydd wedi cael eu hyfforddi gan WAST. Maent yn cael eu hanfon i rai digwyddiadau er mwyn darparu gofal cyn gynted â phosibl cyn i ambiwlans gyrraedd. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn hanfodol er mwyn achub bywydau ledled Cymru.

Aeth ymatebwyr cyntaf yn y gymuned i **814** o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd a nhw oedd y cyntaf yno mewn **689 (84.6%)** o'r digwyddiadau hyn (DAA15).



## CAM 4 - RHOWCH DRINIAETH I MI

Mae'r driniaeth a roddir gan glinigwyr ambiwlans cyn i glaf gyrraedd yr ysbyty yn effeithio'n sylweddol ar y tebygolrwydd y bydd y claf yn goroesi ac yn gwella. Mae clinigwyr ambiwlans yn defnyddio pecynnau gofal, asesu a thriniaeth a elwir yn fwndeli gofal. Mae bwndeli gofal yn gyfres o asesiadau, triniaethau a chamau gweithredu, lle mae cydnabyddiaeth glinigol bod y rhain yn gwella canlyniad a phrofiad claf.

Daw'r wybodaeth hon o gofnodion clinigol cleifion a gwblheir gan y staff gan ddefnyddio eu pennau digidol. Yn y datganiad hwn, rydym wedi tynnu sylw at y perfformiad yn erbyn saith dangosydd clinigol allweddol ar gyfer ataliadau'r galon, strôc, trawiadau ar y galon (o'r enw STEMI), yn ogystal ag achosion o dorri asgwrn y glun (a elwir yn anafiadau i wddf asgwrn y forddwyd), ffit wres, sepsis a hypoglycemia.

**Nodyn Cyhoeddi:** Cyflwynodd WAST System Cofnodion Clinigol Electronig ar gyfer Cleifion (ePCR) newydd ar draws y gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2021.

Wrth i'r broses casglu data newid, dywedodd yr EASC bod adrodd dangosydd clinigol cyhoeddi wedi'i oedi o fis Rhagfyr 2021 i fis Mawrth 2022. Dangosyddion clinigol yn cael eu dwyn ar-lein wrth iddynt gael eu gwirio a'u dilysu. Isod gwelir y rhai a gynhwysir yn y cyhoeddiad misoedd hwn.

**ROSC:** dychwelyd cylchrediad digymell yw aildechrau gweithgaredd cardiaidd parhaus sy'n gysylltiedig ag ymdrech resbiradol sylweddol ar ôl ataliad ar y galon. O'r 258 o gleifion oedd wedi ceisio dadebru yn dilyn ataliad ar y galon, cafodd 14.0% o gleifion eu dogfennu fel ROSC wrth ddrws yr ysbyty.

**Strôc:** mae strôc yn digwydd pan amharir yn sydyn ar y cyflenwad gwaed i'r ymennydd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur nifer a chanran y cleifion yr amheuir eu bod wedi cael strôc a aseswyd wyneb yn wyneb ac a dderbyniodd holl elfennau'r bwndel gofal strôc. Mae'r mesurau'n cynnwys asesiad P.L.W.B. (Prawf Lleferydd Wyneb Braich), cofnodi glwcos yn y gwaed a darlleniadau pwysedd gwaed. Cofnodwyd bod 72.2% o gleifion wedi derbyn y bwndel gofal strôc priodol (AQI16ii).

**Clun wedi'i dorri:** (a elwir yn anafiadau i wddf y ffemwr): mae cluniau wedi torri'n achosi poen sylweddol, a all gael ei waethygu gan symudiad. Mae rheoli poen i gleifion sydd wedi torri gwddf y ffemwr yn y cyfnod yn syth ar ôl trawma yn hollbwysig i hybu adferiad a phrofiad y claf. Mae hyn yn lleihau dioddefaint a'r effeithiau andwyol y gallai poen heb ei reoli ei gael. Cofnodwyd bod 59.5% o gleifion wedi derbyn y bwndel gofal priodol (gan gynnwys analgesia) (AQI16iii).

**Cleifion STEMI:** roedd 108 o gleifion STEMI, o'r rhain derbyniodd 38 (35.2%) y bwndel gofal priodol. (AQI16iv). **Cleifion hypoglycemig:** roedd 238 o gleifion hypoglycemig, ac o'r rhain derbyniodd 111 (46.6%) y bwndel gofal priodol.

Dros y cyfnod adrodd, ni arweiniodd 3,599 o ddigwyddiadau at gludiad i ysbyty neu gyrchfan arall. Y rhesymau dros beidio â thrawsgludo yw bod 1,984 o'r digwyddiadau hyn wedi cael eu trin yn y fan a'r lle a 1,615 wedi'u cyfeirio at ddarparwr arall (AQI17).



## CAM 5 - EWCH Â FI I'R YSBYTY

Cafodd **12,748** o gleifion a ffoniodd 999 eu cludo i ysbyty neu i gyrchfan arall dros y cyfnod adrodd (DAA19i).

Canllawiau GIG Cymru yw y dylid trosglwyddo gofal cleifion o griw ambiwlans i staff ysbyty o fewn 15 munud. Ledled Cymru, digwyddodd hyn mewn **19.4%** o achosion (DAA20i).

**Sylwch:** Mae trosglwyddo gofal yn bwysig, gan fod cymryd mwy na 15 munud yn golygu bod y claf yn aros yn yr ambiwlans, ac oherwydd hyn nid yw'r ambiwlans ar gael i ymatebi alwadau eraill yn y gymuned. .

Dros y cyfnod adrodd, collwyd, **28,645** o oriau oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal (DAA21).

**Sylwch:** Unwaith y bydd criw ambiwlans wedi trosglwyddo gofal claf i ysbyty neu i gyrchfan arall, canllawiau GIG Cymru yw bod ambiwlansys yn clirio ac y dylent fod yn barod ar gyfer yr alwad nesaf cyn pen 15 munud neu lai.

Dros y cyfnod adrodd, cliriodd **83.3%** o ambiwlansys o fewn 15 munud neu lai (DAA22i).

Mae'r cyfnod rhwng trosglwyddo'r claf i ofal yr ysbyty a chlirio wedi hynny yn fesur pwysig o effeithlonrwydd, ac mae'r data ar gyfer y mis hwn yn dangos bod **540** o oriau wedi'u colli oherwydd oedi rhwng trosglwyddo a chlirio (DAA24).





Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys,  
Uned 1, Llys Charnwood  
Ffordd Billingsley  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QZ

Lluniau © Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

